



**Adroddiad ymgynghori ar y cynnig i  
newid ystod oedran  
Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney  
o 11-18 i 11-16**

**Medi 2014**

## **Cynnwys**

- 1 Cyflwyniad
- 2 Yr ymgynghoriad
  - 2.1 Cyhoeddi'r ymgynghoriad
  - 2.2 Cyfarfodydd ymgynghori
  - 2.3 Adborth
- 3 Y goblygiadau ariannol
- 4 Effaith ar dlodi
- 5 Adnoddau Dynol
- 6 Sylwadau gan ESTYN a'r Undebau
- 7 Penderfyniad y Cabinet

## **1. Cyflwyniad**

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi cwblhau cyfnod ymgynghori'n ddiweddar yn ymwneud ag Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney ac Ysgol Gymunedol Saltney Ferry.

Cynhaliodd yr ALL ymgynghoriad ynghych dau ddewis posibl, sef:-

1. Newid ystod oedran Ysgol Uwchradd Dewi Sant o 11-18 i 11-16 o fis Medi 2016 ymlaen.
2. Uno'r ddarpariaeth gynradd yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry a'r ddarpariaeth uwchradd yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant o fis Medi 2015 ymlaen a newid ystod oedran yr Ysgol Uwchradd i 3-16 oed o fis Medi 2016 ymlaen.

## **2. Yr ymgynghoriad**

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff perthnasol (Gweinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol, Cyrff Llywodraethu) ddilyn canllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013.

Bydd y ddogfen hon yn nodi'r camau a gymerwyd yn ystod y Cyfnod Ymgynghori ffurfiol, yn cyfeirio at gasgliadau'r ymgynghoriad a bydd hefyd yn ceisio ymdrin â'r ymholiadau a gafodd yr Awdurdod.

### **2.1 Cyhoeddi'r ymgynghoriad**

Anfonwyd llythyr at yr holl ysgolion lleol ar 2 Mai i roi gwybod i'r holl staff, y llywodraethwyr a'r rhieni / gofawyr am yr ymgynghoriad arfaethedig.

Dechreuodd yr ymgynghoriad ffurfiol ar 19 Mai, 2014 pan ddosbarthwyd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ddogfen ymgynghori a hynny ar ffurf copi caled a drwy'r e-bost. Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori hefyd ar wefan Cyngor Sir y Fflint a gwefan moodle, eto'n ddwyieithog, fel yr holl ddogfennau dilynol yn ymwneud â'r cynnig.

Mae'r tabl isod yn rhestru'r rhai a gafodd gopi o'r ddogfen ymgynghori, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgol.

Enw/Sefydliad	Nifer
<b>Ysgol Uwchradd Dewi Sant – staff (staff dysgu a staff nad ydynt yn dysgu), llywodraethwyr a rhieni/gofalwyr</b>	Llyfrynnau/llythyrau i boblogaeth yr ysgol
<b>Ysgol Gynradd Saltney Ferry (gweler uchod)</b>	Llyfrynnau/llythyrau i boblogaeth yr ysgol
<b>Ysgol Gynradd Goffa Wood (gweler uchod)</b>	Llyfrynnau/llythyrau i boblogaeth yr ysgol
<b>Ysgol Gynradd Sandycroft (gweler uchod)</b>	Llyfrynnau/llythyrau i boblogaeth yr ysgol
<b>Ysgol Gynradd Brychdyn (gweler uchod)</b>	Llyfrynnau/llythyrau i boblogaeth yr ysgol
Coleg Cambria	1
Llywodraeth Cymru	2
Aelodau Seneddol/Cynulliad lleol	4
Prif Arolygwr ESTYN	1
NASUWT	1
NUT	1
ATL	1
GMB:	1
UNITE	1
UNSAIN	1
NAHT	1
FTJNC	1
UCAC	1
ASCL	1
Y Comisynydd Heddlu a Throseddau	1
Cyngor Tref Saltney	1
Cyngor Sir Caer	1
Prif Weithredwr Betsi Cadwaladr	1
Cyngor Sir y Fflint, Pennaeth Asedau a Thrafnidiaeth	1
Cyngor Sir y Fflint, Ieuenctid a Chymuned	1
Partneriaeth Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar, Cyngor Sir y Fflint,	1
GwE	1
Cymunedau'n Gyntaf Gogledd Sir y Fflint Wledig	1
Yr Eglwys yng Nghymru, swyddfeydd Llanelwy a Wrecsam	1
Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol, Tŷ'r Esgob, Sontley Road, Swyddfeydd Wrecsam	1
Plant yng Nghymru	1

Ymgynghorwyd hefyd â myfyrwyr yr ysgolion drwy gynnal ymgynghoriadau arbennig dan arweiniad Tîm Ymgysylltu Plant a Phobl Ifanc Sir y Fflint. Hefyd, cynhyrchwyd fersiwn pobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori ar gyfer y cyfnod hwn o'r ymgynghoriad.

## **2.2 Cyfarfodydd ymgynghori**

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod ymgynghori a hynny ar 19 a 22 Mai 2014. Cynhaliwyd dau gyfarfod yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant ac Ysgol Gynradd Saltney Ferry. Ym mhob ysgol, cynhaliwyd un cyfarfod ar gyfer staff a llywodraethwyr, ac un ar gyfer rhieni a gofalwyr.

## **2.3 Adborth**

Cofnodwyd yr ymatebion a gafwyd yn y cyfarfodydd a chafodd y sylwadau ar y ffurflenni eu coladu a'u dadansoddi.

Cofnodwyd 50 o ymatebion yn y cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol a 320 o ymatebion gan blant a phobl ifanc yn yr ysgolion. Yn ogystal â hyn, daeth 13 o ffurflenni ymateb i law ac un llythyr. Cyflwynwyd deiseb hefyd, ac arni 59 o enwau'n gwrthwynebu'r cynnig i uno'r Ysgol Gynradd ac Uwchradd.

Roedd yr ymatebion a gafwyd yn y cyfarfod yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant yn gyffredinol o blaid y cynnig i sefydlu ysgol i ddisgyblion 11-16 oed.

Roedd y staff a'r llywodraethwyr yn sylweddoli bod y trefniadau i gyflwyno'r cwricwlwm fel consortiwm yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2016, ac na fyddai'r ysgol wedyn yn gallu bodloni gofynion y mesur Dysgu a Sgiliau o ran dewisiadau pwnc.

O'r 10 ymateb a gafwyd ar bapur, roedd 7 yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno â'r dewis i sefydlu ysgol 11-16 oed, roedd 2 yn anghytuno ac nid oedd gwahaniaeth gan 1.

Yn achos yr ymatebion i'r cynnig i uno'r ddwy ysgol i greu un ysgol ar gyfer disgyblion 3-16 oed, roedd 5 naill ai'n cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno a 5 yn anghytuno'n gryf. Cafwyd 2 lythyr gan aelodau o'r gymuned, yn naill o blaid uno a'r llall yn erbyn.

Dyma ddadansoddiad o'r ymatebion eraill a gafwyd: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r ymgynghoriad ynghylch:

Yn ogystal â hyn, ysgrifennodd 9 o bobl nodiadau ychwanegol ar eu ffurflenni ymgynghori, rhai ohonynt yn cytuno ac eraill yn anghytuno. Cafodd y 9 ymateb gan yr Awdurdod Lleol yn:-

- Diolch iddynt am ymateb i'r ymgynghoriad.
- Egluro bod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben ac y byddai'r ymatebion yn cael eu cyflwyno i'r Cynghorwyr eu hystyried.
- Rhoi dyddiad tebygol y penderfyniad ac yn dweud pryd y byddai ymatebwyr o'r ysgolion a'r gymuned yn cael gwybod y canlyniad.

Cafwyd un llythyr, yn gofyn am esboniad o'r canlynol:-

- Arolygon a safonau ESTYN
- Cyfathrebu â disgyblion a staff y ddwy ysgol
- Pam cynnig y newidiadau yn yr ardal hon?
- Cymhariaeth ag ysgol gymuned mewn Awdurdod Lleol arall sydd â phroblemau'n barod a pha fesurau sydd ar waith i atal yr un problemau rhag codi yn Sir y Fflint?  
Sut y mae'r ysgolion sy'n bwydo'r ysgol uwchradd yn teimlo?
- Pa nodweddion arbennig fydd gan yr ysgol ar gyfer anabledau neu anghenion arbennig?
- Os caiff y cynnig ei wrthod, a fydd gostyngiad mewn cyllid? Os na, am ba hyd gaiff yr ysgol ei chynnal gan yr ALI?
- A fydd mynedfa ac allanfa i draffig?
- Problemau traffig yn ystod amser ysgol. A ystyriwyd y gymuned e.e. prisiau tai.
- A ymgynghorwyd â phobl leol nad oes ganddynt blant yn yr ysgol?
- Beth fydd yn digwydd i'r tir? A oes sicrwydd mai addysg ein plant yw'r unig beth dan sylw?

Wrth ymateb, amlinellwyd y canlynol:-

- Mae'r ALI wedi bod yn rhoi cefnogaeth i Ysgol Gynradd Saltney Ferry a bydd yn parhau i wneud hynny. Gwnaed cynnydd ardderchog gyda'r staff a'r ALI. Mae'r ALI bob amser yn gweithio gyda chyrrff llywodraethu i geisio cadw staff.
- Mae'r broses derbyn disgyblion yn diogelu lleoedd yn yr ysgol.
- Dyrennir lleoedd i'r plant sy'n byw agosaf i'r ysgol os oes gormod o geisiadau, ond mae hyn yn annhebygol.
- Rhaid i unrhyw ysgol newydd fod yn hygyrch a chydymffurfio â gofynion Deddf Anabledd sy'n ymwneud ag anghenion amrywiol gan gynnwys anghenion corfforol.
- Mae'r cyllid a roddir i ysgolion yn seiliedig ar nifer y disgyblion; byddai uno'r ysgolion a chyfuno'r cyllidebau'n creu darpariaeth gryfach.
- Byddai angen i'r adran priffyrdd adolygu a chymeradwyo'r fynedfa i safle Dewi Sant.
- Roedd y broses ymgynghori'n cynnwys Cyngor Tref Saltney sy'n cynrychioli'r gymuned.
- Byddai angen trafod unrhyw gynnig i ryddhau tir.

## Dewis 1: sefydlu ysgol ar gyfer disgyblion 11-16 oed

a) Rhieni/Gofalwyr Staff a Llywodraethwyr

<b>Cytuno'n gryf</b>	<b>15</b>	<b>25.42%</b>
Tueddu i gytuno	14	23.73%
Nid wyf yn cytuno na'n anghytuno	10	16.95%
Tueddu i anghytuno	6	17%
Anghytuno'n gryf	14	23.73%
Cyfanswm	59	100.00%

b) Children and Young People

Cytuno'n gryf	83	25.94%
<b>Tueddu i gytuno</b>	<b>89</b>	<b>27.81%</b>
Nid wyf yn cytuno na'n anghytuno	70	21.88%
Tueddu i anghytuno	47	14.69%
Anghytuno'n gryf	31	9.69 %
Cyfanswm	320	100.00%

## Dewis 2 uno a sefydlu ysgol i ddisgyblion 3-16 oed:

a) Rhieni/Gofalwyr Staff a Llywodraethwyr

Cytuno'n gryf	5	8.5%
Tueddu i gytuno	8	13.6%
Nid wyf yn cytuno na'n anghytuno	8	13.6%
Tueddu i anghytuno	4	6.8%
<b>Anghytuno'n gryf</b>	<b>34</b>	<b>57.6%</b>
Cyfanswm	59	100.00%

b) Plant a Phobl Ifanc

Cytuno'n gryf	22	6.88%
Tueddu i gytuno	32	10.00%
Nid wyf yn cytuno na'n anghytuno	66	20.63 %
Tueddu i anghytuno	66	20.63%
<b>Anghytuno'n gryf</b>	<b>131</b>	<b>40.94%</b>
Dim ymateb	3	0.94 %
Cyfanswm	320	100.00%

### **3. Y goblygiadau ariannol**

Bydd costau ynghlwm wrth gludo myfyrwyr o ardal Saltney i'r ganolfan chweched dosbarth newydd yng Nghei Connah, ond caiff hyn ei liniaru gan yr arbedion a wneir pan ddaw trefniadau teithio'r consortiwm i ben.

### **4. Effaith ar dlodi**

Ni fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith uniongyrchol

### **5. Adnoddau dynol**

Byddai'r cynnig i ddod â'r ddarpariaeth ôl-16 i ben yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant yn effeithio ar nifer y staff y byddai eu hangen yn yr ysgol. Byddai'r penderfyniad i neilltuo swyddi newydd yn y ganolfan ôl-16 newydd i staff y coleg a'r ysgolion dan sylw yn lliniaru rhywfaint ar hyn. Mae trefniadau ar y gweill ar gyfer Ymddeoliad Gwirfoddol Cynnar a thaliadau trosiannol ar gyfer Cyfrifoldebau Dysgu ac Addysgu i rai aelodau o staff.

### **6. Ymateb ESTYN a'r Undebau**

Ymatebodd Estyn i'r Adolygiad Ysgolion: Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney ac Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Ferry, fel a ganlyn: -

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod cysylltiedig, mae angen i gynigyddion anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff sy'n gorfod gweithredu'n unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, dim ond rhoi barn ar rinweddau cyffredinol unrhyw gynigion y bydd Estyn.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac yn cyflwyno'r ymateb a ganlyn i'r wybodaeth a gafwyd gan y cynigydd.

#### **Cynnig 1. Newid ystod oedran Ysgol Uwchradd Dewi Sant o 11-18 i 11-16 oed o fis Medi 2016 ymlaen.**

##### **Cyflwyniad**

Mae Cyngor Sir yn cynnig gostwng oedran y disgyblion hynaf yn Ysgol Uwchradd Dewis Sant o 18 i 16 oed. Ar hyn o bryd, mae Dewi Sant yn rhan o gonsortiwm sy'n darparu addysg ôl-16. O dan y cynigion hyn, bydd Dewi Sant, ynghyd â'r ysgolion eraill yn y consortiwm, yn dod â'u darpariaeth ôl-16 i ben yn raddol erbyn 2016. O 2016 ymlaen, bydd disgyblion ôl-16 sydd am barhau i astudio'n gwneud hynny yn y ganolfan chweched dosbarth newydd yng Nghei Connah.



## **Crynodeb**

Mae'r cynnig yn dangos yn glir fwriad yr awdurdod i drawsnewid darpariaeth ôl-16. Mae'r cynnig yn rhan o Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Sir y Fflint ac yn rhan o'r cynllun strategol ehangach ar gyfer addysg 14- 19 yng ngogledd Sir y Fflint. Mae'r ganolfan chweched dosbarth newydd yng Nghei Connah yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mae'r cynnig yn debygol o wella safon y ddarpariaeth addysg i ddisgyblion ôl-16 a'r disgyblion hyn fydd yn elwa o gael defnyddio cyfleusterau dysgu modern a manteisio ar amrywiaeth ehangach o gyrsiau nag a gynigir ar hyn o bryd yn Ysgol Dewi Sant a'r consortiwm lleol.

Mae'r cyngor sir hefyd yn cynnig trefniadau ac amserlenni tebyg i ostwng oedran y disgyblion hynaf yn ysgolion uwchradd Treffynnon, Cei Connah a Queensferry.

## **Disgrifiad a manteision**

Mae manteision disgwylidig y cynnig wedi'u diffinio'n glir ac yn cysylltu'n dda â'r dibenion a'r sail resymegol a nodwyd. Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn rhoi digon o fanylion am yr amrywiaeth o gyrsiau a fydd ar gael yn y ganolfan chweched dosbarth, fodd bynnag, ond byddai penderfyniad i ddatblygu un ddarpariaeth ganolog ar un safle'n debygol o roi amrywiaeth ehangach o gyfleoedd dysgu a chreu cyfleusterau modern.

Rhagwelir y bydd y newid arfaethedig yn gwneud y ddarpariaeth yn fwy ymatebol i anghenion dysgwyr ac mae Estyn yn credu bod hyn yn rhagdybiaeth resymol. Drwy gyfuno adnoddau ar un safle er mwyn cynnig darpariaeth effeithlon a chynaliadwy. O dan y trefniadau presennol, mae'r disgyblion yn dilyn gwahanol gyrsiau drwy deithio o un safle i'r llall. Dylai'r cynnig ddileu'r angen i wneud hynny.

Un o anfantais yw y bydd disgyblion o Saltney sydd am ddilyn cyrsiau ôl-16 yn teithio tua 8 milltir i'r ganolfan chweched dosbarth yng Nghei Connah. Fodd bynnag, bydd cludiant am ddim ar gael i'r disgyblion hyn fel rhan o drefniadau cludiant ôl-16 Sir y Fflint.

Nid yw'r ddogfen ymgynghori'n ystyried y risgiau a'r goblygiadau posibl o ran canlyniadau disgyblion Dewi Sant os bydd staff sy'n dymuno parhau i ddysgu cyrsiau ôl-16 yn gadael yr ysgol o ganlyniad i'r cynnig. Nid yw'r cynnig yn ymdrin â'r broblem bresennol yn ymwneud â lleoedd gwag yn Ysgol Dewi Sant, a byddai angen ailasesu hyn pe bai oedran y disgyblion hynaf yn cael ei ostwng.

Nid yw'r ymgynghoriad yn ystyried unrhyw effaith ar ddarpariaeth addysg Gymraeg yng ngogledd Sir y Fflint.

Nid yw'r ddogfen yn cyfeirio at asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac nid yw'n glir a gynhaliwyd asesiad o'r fath. O ganlyniad, nid yw'r cynnig yn rhoi digon o fanylion am effaith y newidiadau arfaethedig ar grwpiau sy'n agored i niwed gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol sydd am ddilyn cyrsiau ôl-16. Mae'r ddogfen yn datgan y bydd y newidiadau arfaethedig yn hygyrch i bob dysgwr, ond nid yw'n manylu ar sut y caiff hyn ei gyflawni.

## **Cynnig 2. Uno'r ddarpariaeth gynradd yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry a'r ddarpariaeth uwchradd yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant o fis Medi 2015 ymlaen a newid ystod oedran yr Ysgol Uwchradd i 3-16 oed o fis Medi 2016 ymlaen.**

### **Cyflwyniad**

Mae'r cyngor sir yn cynnig uno Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney ag Ysgol Gynradd Saltney Ferry. Byddai ystod oedran yr ysgol Uwchradd wedyn yn newid i 3 -16 oed.

### **Crynodeb**

Nid yw'r ddogfen yn rhoi gwybodaeth fanwl ynghylch effaith y cynnig ar safonau a chanlyniadau disgyblion. Nid yw manteision arfaethedig y cynnig i uno'r ddwy ysgol yn glir ac nid oes modd barnu a fydd y cynnig yn codi safonau addysg. Nid yw'r ddogfen yn ystyried effaith y cynnig ar yr ysgolion cynradd eraill sy'n bwydo Ysgol Uwchradd Dewi Sant.

### **Disgrifiad a manteision**

Ymddengys mai sail resymegol y cynnig yw cryfhau arweinyddiaeth a rheolaeth Ysgol Gynradd Saltney y barnwyd eu bod yn anfoddfaol gan Estyn ym mis Ionawr 2014. Oherwydd y farn hon, cafodd yr ysgol ei gosod yn y categori mesurau arbennig. Mae'r cynnig yn awgrymu y byddai'r sefyllfa'n gwella pe bai'r ysgol o dan arweiniad Ysgol Dewi Sant; barnwyd bod arweinyddiaeth yr ysgol honno'n dda pan gafodd ei harolygu gan Estyn yn 2011 Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei esbonio'n glir yn y ddogfen. Prin yw'r manylion am y broses a fyddai'n cael ei dilyn i uno'r ysgolion o dan arweinyddiaeth a rheolaeth un pennaeth ac un corff llywodraethu.

Nid yw'r ymgynghoriad yn ystyried ffyrdd addas eraill o ddarparu cymorth arweinyddol i Ysgol Gynradd Saltney Ferry. Nid yw'r ymgynghoriad ychwaith yn ystyried ffyrdd eraill o greu cysylltiadau agosach â'r gymuned, sef un o fanteision arfaethedig y cynnig i uno. Mae'r ddogfen yn nodi bod mwyafrif y disgyblion eisoes yn trosglwyddo o Ysgol Gynradd Saltney Ferry i Ysgol Dewi Sant. Nid yw'n glir, felly, sut y bydd yr uno arfaethedig yn helpu i leihau lleoedd gwag yn y ddwy ysgol.

Mae'r ddogfen yn nodi y bydd unrhyw fuddsoddiad cyfalaf mewn adeiladau yn y dyfodol yn dibynnu ar nifer o ffactorau megis lleihau lleoedd gwag. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd y caiff adeiladau newydd eu darparu ar ôl uno'r ysgolion.

Nid yw'r cynnig yn cynnwys digon o fanylion am effaith y newidiadau arfaethedig ar grwpiau sy'n agored i niwed gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

## **Undebau Dysgu**

Nid oedd unrhyw ymateb gan yr undebau dysgu

## **7. Penderfyniad y Cabinet**

### **16 Medi 2014 – penderfynodd y Cabinet ar y canlynol:-**

Cymeradwyo'r dewis i newid ystod oedran Ysgol Uwchradd Dewi Sant o 11-18 i 11-16 oed o fis Medi 2016 ymlaen a chyhoeddi hysbysiad statudol at y diben hwn.

Ymgymryd â gwaith ychwanegol gydag Ysgol Uwchradd Dewi Sant a'r ysgolion cynradd lleol i'w hannog i gydweithio'n agosach ac i ddatblygu cynlluniau posibl ar gyfer ffederaleiddio.